

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

3. Gweithio gydag eraill

3.2 Dulliau cyfranogi ac ymgysylltu â'r gymuned



Mae cyfranogi yn gweithio!

Dengys profiad fod rhaid i gymunedau lleol gael y cyfle i gyfrannu a chymryd rhan er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r datblygiadau mwyaf cyffrous yng Nghymru yn digwydd ar y rhyngwyneb rhwng cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Cyfranogi cymunedol a chynnwys y gymuned yw'r sylfaen i gynnal ysbryd y gymuned a galluogi pobl i weithredu.

Beth sydd mor arbennig am gyfranogi?

Mae ymgynghori yn gysyniad adnabyddus i'r mwyafrif o awdurdodau lleol, grwpiau gwirfoddol a chymunedol ac asiantaethau datblygu. Mae'n golygu gwahodd sylwadau ar gynlluniau sydd eisoes yn cael eu ffurfio.

Mae cyfranogi ac ymgysylltu yn golygu rhywbeth llawer mwy sylfaenol: mae'n annog pobl i gymryd rhan, dweud eu dweud a chael eu cynnwys. Mae'r rhan fwyaf o ddulliau ymgynghori yn adnabyddus - cyfarfodydd cyhoeddus, hysbysfyrddau, pamffledi a chylchlythyrau, er enghraifft. Ar y llaw arall, mae cyfranogi cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned yn faes newydd i lawer, a gall ymddangos fel pe bai'n cael ei ddominyddu gan derminoleg anghyfarwydd ac ymgynghorwyr allanol. Mae'r canlynol yn crynhoi rhai o'r dulliau mwyaf poblogaidd ac arloesol y gallwch eu defnyddio.

Crynodeb o'r dulliau

Arolygon

Mae arolygon yn dechneg eang eu defnydd sy'n casglu gwybodaeth, gan amlaf oddi wrth nifer fawr o bobl, ar ffurf holiadur strwythuredig safonol. Fel arfer maent yn fan cychwyn i'r prosesau cyfranogi, ac fe'u defnyddir yn aml mewn cyswllt â dulliau eraill. Mae dewis y cwestiynau cywir yn hanfodol er mwyn i'r dull hwn fod o gymorth. Mae gwefannau megis 'survey monkey' yn wych os ydych am greu arolwg arlein a'i anfon at gyfranogwyr.

Technoleg Man Agored

Mae Technoleg Man Agored yn addasiad o'r dull cyfarfod cyhoeddus 'traddodiadol' ar gyfer cyfranogi cymunedol, sy'n rhannu peth tebygrwydd â digwyddiadau 'Future Search'. Mae cyfarfodydd Man Agored yn ceisio cynnwys yr holl bobl sydd â diddordeb mewn cymuned i drefnu neu reoli'r digwyddiad a'r materion a ystyrir. Mae'r broses yn hyblyg ac yn 'agored' iawn, heb agenda penodedig, ychydig o strwythur ffurfiol yn unig a dim 'arbenigwyr', a gwneir llawer o'r gwaith mewn grwpiau bychain yn seiliedig ar bwnc. Mae'n boblogaidd yn y sector preifat a hefyd yn ennill ei blwyf yn gynyddol yn y sector gwirfoddol.

Grwpiau ffocws

Mae grŵp ffocws yn holi barn cyfranogwyr ar bynciau amrywiol ac yn eu caniatáu i gael trafodaeth agored. Tueddir i 6-10 o gyfranogwyr fod mewn grŵp, ac er mwyn ysgogi'r sgwrs, gall fod o gymorth i gael rhai cwestiynau i arwain y drafodaeth a hwylusydd i gymryd unrhyw nodiadau.

Fforymau

Cyfarfodydd rheolaidd neu barhaus mewn ardal leol i gynrychiolwyr grwpiau a mudiadau yw fforymau, neu i unigolion sy'n dangos diddordeb. Daw cyfranogwyr at ei gilydd i drafod mater neu bryder penodol, megis yr amgylchedd, iechyd a llesiant, diogelwch cymunedol, ac ati. Mae fforymau wedi'u sefydlu'n eang ledled y Deyrnas Unedig gan awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a mudiadau gwirfoddol cymunedol i drafod datblygiad a gweithrediad strategaethau amrywiol. Cydnabyddir fforymau hefyd fel mecanwaith priodol i gynnwys grwpiau sydd wedi'u cau allan o'r broses benderfynu, megis lleiafrifoedd ethnig, cleifion a phobl ifanc.

Mapio proses

Mae mapio proses yn eich galluogi i weithio gyda grŵp o ryw 15-20 o ddefnyddwyr gwasanaeth gan ddefnyddio map ffordd i gofnodi eu profiad. Gofynnir i gyfranogwyr ysgrifennu ar nodiadau gludiog ble maent arni ym mhob pwynt o'u siwrnai o ddefnyddio'r gwasanaeth gyda chi. Mae unrhyw atebion sydd yr un fath yn cael eu rhoi gyda'i gilydd sy'n eich galluogi i ganfod materion cyffredin er mwyn rhoi sylw iddynt neu edrych arnynt ymhellach. Gellir defnyddio dulliau amgen gyda'r dull hwn megis wal graffiti neu ychwanegu taflenni siart troi i gofnodi sgwrsiau neu sylwadau ychwanegol.

Straeon digidol

Ffilm fer neu sioe sleidiau yw straeon digidol gyda'r adroddwr yn adrodd stori. Maent yn defnyddio delweddau, animeiddio, sleidiau a sain a gall fod yn ddewis arall i dystiolaeth ar bapur. Fe'i hystyrir yn aml yn dechneg fwy deniadol sy'n caniatáu i bobl fod yn greadigol.

Paneli defnyddwyr

Grwpiau o bobl a ddygir ynghyd i gynrychioli demograffeg eang prosiect neu wasanaeth yw paneli defnyddwyr. Does dim terfyn uchaf ar nifer y cyfranogwyr er y byddai angen i chi yn y dull hwn ollwng 1/3 o aelodau bob blwyddyn a'u disodli; bydd hyn yn sicrhau datblygu sgysiau a syniadau rheolaidd. Ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu llai, gallwch ddefnyddio nifer fach o gyfranogwyr o'r panel defnyddwyr i gynnal trafodaethau, ac yna roi adborth ar hyn i weddill y grŵp. Mae hyn o gymorth os oes gennych amserlen fer neu faes bwnc mwy penodol.

Planning for Real®

Wrth ddefnyddio Planning for Real, rydych yn defnyddio mapiau graddfa fawr i ddatblygu model 3D o ardal a fydd yn amlygu adeiladau neu dir cymunedol allweddol, er enghraifft; meysydd chwarae, ysgolion, adeiladau cymunedol ac eglwysi. Yna mae gan gyfranogwyr bynciau amrywiol i roi eu barn arnynt, gan ddefnyddio pinnau a fflagiau, er mwyn canfod materion allweddol. Mae hyn yn galluogi pobl i gynnig syniadau er mwyn gwella eu cymdogaeth megis man agored di-ddefnydd neu ddiffyg golau stryd. Mae consensws yn ymddangos drwy batrwm a dosbarthiad y fflagiau a'r pinnau. Mae PfR yn nod masnach gofrestredig.

Caffi'r Byd

Mae Caffi'r Byd yn rhoi'r cyfle i bobl gynnal trafodaethau drwy sgwrsio. Mae nifer o fyrddau wedi'u gosod yn yr ystafell gyda phapur arnynt, mae gan bob bwrdd bwnc trafod gwahanol a rhoddir cyfnod penodol o amser i gyfranogwyr cyn iddynt symud ymlaen at y bwrdd nesaf. Mae pobl yn gallu cymryd rhan os ydynt yn dymuno a gellir defnyddio ffon siarad i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud, nodir y pwyntiau allweddol a gall cyfranogwyr ysgrifennu ar y papur sydd ar bob bwrdd er mwyn sicrhau y cofnodir unrhyw beth maent yn dymuno ei ddweud. Gellir symud grwpiau ddwywaith neu dair cyn rhoi adborth i'r ystafell gyfan.

Cyfranogaeth Cymru

Sefydlwyd prosiect cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru fis Tachwedd 2001, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gyfranogi cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned. Fe'i ffurfiwyd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n gweithio ym maes cyfranogi cyhoeddus a chymunedol yng Nghymru.

Mae Cyfranogaeth Cymru yn brosiect unigryw yng Nghymru, sy'n darparu hyfforddiant arloesol, cefnogaeth, gwybodaeth a chyfeiriad polisi mewn dulliau cyfranogi ar gyfer ymgysylltu, datblygu ac adfywio cyhoeddus a chymunedol.

Gwybodaeth bellach

Cyfranogaeth Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

www.participationcymru.org.uk

Interact Networks

www.interactnetworks.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 03/09/2015



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk